
Archwilio Cymru
Audit Wales

# Diogelu Natur ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol?

## Dull Cyfoeth Naturiol Cymru o ddynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

Tachwedd 2025



Rydym wedi paratoi'r adroddiad hwn ac yn ei gyflwyno i'r Senedd o dan adran 145A Deddf Llywodraeth Cymru 1998 ac adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os ydych chi'n ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir a pheidio â gwneud hynny mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

**Os oes angen help arnoch gyda'r ddogfen hon**

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Cynnwys

Cipolwg ar yr archwiliad 4

Barn yr Archwilydd Cyffredinol 6

Ffeithiau a ffigyrau allweddol 7

Ein canfyddiadau 8

Argymhellion 24

## Atodiadau

1 Ynglŷn â'n gwaith 28

2 Cynllunio corfforaethol a busnes CNC, a'i oruchwyliaeth ar safleoedd gwarchodedig 31

3 Proses ddynodi CNC 33

4 Cyllid CNC 34

# Cipolwg ar yr archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

1 Mae Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yn cael eu cydnabod am eu bywyd gwyllt pwysig a'u nodweddion naturiol. Fe'u gwarchodir o dan adran 28 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Dywed Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) fod 1,083 SoDdGA yng Nghymru ar hyn o bryd.

2 CNC sy'n gyfrifol am ddynodi safleoedd yn SoDdGA a'r rheolaeth reoleiddiol arnynt. Mae CNC yn rheoli Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn uniongyrchol ar dir yn ei ofal ac yn cynghori tirfeddianwyr a meddianwyr eraill ar safleoedd nad yw'n eu rheoli'n uniongyrchol.

3 Fe wnaethom ystyried a oes gan CNC ddull effeithiol o ddynodi SoDdGA. Roedd hyn yn cynnwys sut y mae'n cymhwyso ffyrdd o weithio a ddisgwylir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, megis sut y mae'n cydbwyso'r heriau presennol â chynllunio i gyflawni deilliannau gwell ar gyfer natur dros y tymor hwy. Mae ein gwaith hefyd wedi darparu rhywfaint o fewnwelediad i agweddau ar weithrediadau ehangach CNC.

## Pam fod hyn yn bwysig

4 Mae Cymru, fel gweddill y DU, wedi profi colled bioamrywiaeth sylweddol ac mae bellach yn un o'r gwledydd sydd fwyaf prin o ran natur ar y blaned. Yn 2023, adroddodd y Bartneriaeth Sefyllfa Byd Natur fod un ymhob chwe rhywogaeth yng Nghymru mewn perygl o ddifodiant. Mae'r Adroddiad Interim ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2024 gan CNC yn esbonio bod cyfradd difodiant rhywogaethau yng Nghymru'n cyflymu.

5 Mae CNC wedi blaenoriaethu bioamrywiaeth yn Byd Natur a Phobl yn Ffynnu Gyda'n Gilydd, ei gynllun corfforaethol hyd at 2030. Mae'r cynllun yn ymrwymo i ehangu'r gyfres o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a'u cysylltu'n well fel rhan o ddull ehangach CNC o adfer natur. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad rhyngwladol ehangach i ddiogelu 30% o'r tir, dŵr croyw a'r môr erbyn 2030.

6 Mae CNC wedi bod yn ceisio cyflawni ei gynllun corfforaethol ac yntau'n wynebu heriau ariannol sylweddol. Er mwyn arbed costau staff, tynnodd CNC 8% o swyddi staff o gyfanswm ei swyddi ym mis Ebrill 2025 fel rhan o'i broses ailstrwythuro 'achos dros newid'. Mae'r materion hyn yn ei gwneud hi'n hanfodol bwysig bod CNC yn gallu gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau i gyflawni dros natur, yn awr ac ar gyfer y dyfodol.

## Yr hyn yr ydym wedi'i ganfod

7 Er ei fod yn gwybod am lawer o leoedd lle gall nodweddion fod yn gymwys i gael eu diogelu trwy ddynodiad SoDdGA, dim ond nifer fach o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig y mae CNC wedi bod yn eu dynodi ers ei sefydlu yn 2013. Er bod CNC wedi ymrwymo i ehangu'r gyfres o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a'u cysylltu'n well, cyfyngedig yw'r cynnydd a wnaed ganddo o ran datblygu ei ddull strategol. Mae cyfyngiadau capasiti staff, bylchau mewn data allweddol, a systemau digidol tameidiog yn ei ddal yn ôl.

8 Os na fydd CNC yn gweithredu, mae'n annhebygol o allu dangos ei fod yn taro cydbwysedd rhwng pwysau byrdymor a'r deilliannau tymor hwy y mae'n ceisio eu cyflawni ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Bydd hi'n bwysig i CNC ystyried y risg hon yng nghyd-destun ei flaenoriaethau ehangach ar fioamrywiaeth a sut y gall gael yr effaith fwyaf posibl, o ystyried cyfyngiadau o ran adnoddau.

## Yr hyn yr ydym yn ei argymell

9 Rydym wedi gwneud wyth argymhelliad ar gyfer gwella. Maent yn nodi'r camau yr ydym ni'n credu y dylai CNC eu cymryd i wella'r modd y mae'n cynllunio, yn cyflawni ac yn goruchwylio dynodiadau SoDdGA.

# Barn yr Archwilydd Cyffredinol

Mae swyddogaethau CNC yn rhan hanfodol o ymateb Cymru i'r argyfwng hinsawdd a natur. Rwy'n cydnabod y pwysau ariannol a fu ar CNC a'r gwahanol flaenoriaethau y mae'n rhaid iddo daro cydbwysedd rhyngddynt, ond mae dynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn un o'r prif offer sydd ar gael iddo i ddiogelu natur ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Er mwyn i CNC gyflawni ei ymrwymiad i ehangu'r gyfres o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a'u cysylltu'n well, mae angen ailosod ei ddull yn sylfaenol i hybu mwy o weithgarwch yn y blynyddoedd sydd i ddod.



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Ffeithiau a ffigyrau allweddol

## Safleoedd gwarchodedig yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r targed rhyngwladol i ddiogelu **30% o dir, dŵr croyw a môr erbyn 2030**

Mae **1,083** o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yng Nghymru → **12%** o arwynebedd Cymru

Mae **20%** o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig mewn cyflwr ffafriol

Mae **30%** mewn cyflwr anffafriol

Mae cyflwr **50%** o nodweddion safleoedd yn anhysbys

Dim ond **31** o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig y mae CNC wedi eu dynodi ers ei sefydlu yn 2013

## Sefyllfa ariannol CNC

**£268 miliwn**: Cyllideb agoriadol CNC ar ddechrau 2024-25 → **£9 miliwn**: Diffyg yng nghyllideb CNC ar gyfer 2024-25

A fyddai'n codi i **£17 miliwn** erbyn 2026-27 heb weithredu i gwtogi ar gostau

Fe gyflawnodd CNC ostyngiad o **£10.6 miliwn** mewn costau staff cylchol blynyddol erbyn mis Ebrill 2025

Fe wnaeth ddileu oddeutu **8%** o swyddi yng nghyfanswm ei swyddi staff

**£284 miliwn**: Cyfanswm cyllid CNC ar gyfer 2024-25 ar ôl newidiadau yn ystod y flwyddyn → **£298 miliwn**: Cyllideb CNC yn 2025-26

# Ein canfyddiadau

## Mae CNC wedi gwneud ymrwymiad eglur i ehangu ei gyfres o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a'u cysylltu'n well, ond cyfyngedig yw'r cynnydd y mae wedi'i wneud o ran datblygu ei ddull strategol

### Nid yw'n glir i CNC eto sut y bydd yn estyn y gyfres Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac yn eu cysylltu'n well, ac mae capasiti staff cyfyngedig yn dal gwaith datblygu yn ôl

10 Mae cynllun corfforaethol CNC yn rhoi ffocws eglur ar natur. Mae'r cynllun yn nodi tri amcan llesiant, y mae un ohonynt yn ymwneud â bioamrywiaeth: 'byd natur wrthi'n gwella'. Mae CNC wedi nodi camau i gyflawni hyn, gan gynnwys:

'Ehangu'r gwaith o ddiogelu a rheoli'n gynaliadwy er budd natur o leiaf 30% o dir, dŵr croyw a môr, a hynny drwy nodi cyfleoedd i ehangu'r gyfres o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, a'u cysylltu'n well â'i gilydd'.[1]

11 Mae'r cam hwn yn adlewyrchu'r targed rhyngwladol '30 erbyn 30', y mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo iddo. Mae'r targed yn cyfeirio at ddiogelu a rheoli o leiaf 30% o dir, dŵr croyw a môr yn effeithiol er budd natur erbyn 2030.[2] Yn 2022, arweiniodd Llywodraeth Cymru adolygiad 'Adolygiad Dwfn Bioamrywiaeth' i ddatblygu camau gweithredu ar y cyd i gefnogi adferiad natur yng Nghymru a chyfrannu at y targed.

12 Ar hyn o bryd, mae CNC yn adrodd bod 12% o arwynebedd Cymru wedi'i ddiogelu fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, sy'n golygu bod llawer llai na 30% wedi'i ddiogelu. Pan oedd CNC yn datblygu ei gynllun corfforaethol, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi cytuno â rhanddeiliaid amgylcheddol pa fathau o ardaloedd gwarchodedig ar wahân i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig fyddai'n cyfrif tuag at gyrraedd y targed.

1 Mae **Arddangosyn 2** yn **Atodiad 2** yn nodi rhagor o wybodaeth am ymrwymiadau cynllun corfforaethol a busnes CNC.

2 Mae hyn wedi'i nodi yn Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal, y cytunwyd arno yn COP15 (Cynhadledd Partïon y Confensiwn ar Fioamrywiaeth).

13 Roedd CNC yn cydnabod y byddai rhanddeiliaid yn debygol o gytuno ar fesurau diogelu pellach ar ôl yr adolygiad dwfn.[3] Er mwyn osgoi oedi, dewisodd CNC ganolbwyntio'r cam yn ei gynllun corfforaethol ar ehangu Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yng nghyd-destun ei ddyletswydd statudol i hysbysu ynghylch safleoedd posibl i'w dynodi. Fe wnaeth hynny gan wybod y gallai fod angen iddo addasu'r cam hwn unwaith y byddid wedi cytuno ar fesurau diogelu pellach.

14 Roedd gan CNC uchelgais i ddatblygu dull strategol o estyn y gyfres o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig cyn y cynllun corfforaethol presennol. Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddodd CNC gynllun bioamrywiaeth – Natur Hanfodol – a oedd yn dweud y byddai'n 'addasu neu'n ymestyn' Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig presennol ac yn sefydlu blaenoriaethau ar gyfer hysbysu ynghylch safleoedd i'w dynodi.[4]

15 Er gwaethaf hyn, mae'r cynnydd wedi bod yn araf. Rhwng 2018 a 2021, gweithiodd staff CNC ar gynigion manwl i gyflawni Natur Hanfodol, ond ni wnaeth CNC eu gweithredu'n llawn. Disodlwyd Natur Hanfodol gan ffocws CNC ar yr Adolygiad Dwfn Bioamrywiaeth yn 2022 a'r Cynllun Corfforaethol yn 2023.

16 Nid yw CNC wedi penderfynu sut y bydd yn blaenoriaethu ei weithgarwch i ehangu'r safleoedd a ddiogelir a'u cysylltu'n well, ochr yn ochr â chamau gweithredu eraill i'w cymryd gyda neu gan bartneriaid. Er enghraifft, pa un a fydd yn canolbwyntio ar hysbysu ynghylch Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig newydd ynteu ar ehangu ei Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig presennol trwy'r hyn a elwir yn 'ail-hysbysu'.

17 Fe gyhoeddodd CNC ei Gynllun Corfforaethol ym mis Mai 2023. Yna fe ddatblygodd gamau gweithredu mwy manwl i gyflawni'r cynllun fel rhan o'i broses cynllunio busnes ar gyfer 2024-25. Roedd cynllun busnes terfynol 2024-25 yn canolbwyntio ar gydgrynhoi tystiolaeth i adnabod blaenoriaethau ar gyfer gweithgarwch SoDdGA trwy dri 'chanlyniad allweddol' ar gyfer y flwyddyn honno:

- cynyddu dealltwriaeth am faint a chysylltedd Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig presennol trwy asesiad o'r holl safleoedd erbyn diwedd chwarter tri;
- cynyddu cyngor i gyflymu hysbysiadau ac ail-hysbysiadau trwy ddiweddaru'r llawlyfr staff ar hysbysu ynghylch SoDdGA; a
- chyflawni dull wedi'i gostio i gefnogi rhaglen hysbysu 'estynedig' yn seiliedig ar wybodaeth o'r ddau ganlyniad cyntaf.

3 Ar adeg ein hadolygiad, roedd rhanddeiliaid wrthi'n trafod a allai Mesurau Cadwraeth Effeithiol Seiliedig-ar-Ardal Eraill (OECMs) fod yn rhan o'r dull. Mae OECMs yn fesur diogelu newydd yn y DU. Maent yn cydnabod ardaloedd nad ydynt yn gymwys fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ond sy'n cyfrannu at gadwraeth bioamrywiaeth.

4 Mae **Arddangosyn 4** yn **Atodiad 3** yn esbonio'r broses ddynodi. Hysbysu yw pan fydd CNC yn hysbysu rhanddeiliaid perthnasol o'i fwriad i ddynodi safle yn SoDdGA.

18 Erbyn diwedd 2024-25, roedd CNC wedi gwneud cynnydd ar y canlyniad cyntaf ond nid oedd wedi cwblhau'r gwaith. Nid oedd CNC wedi cwblhau gwaith ar y ddau arall oherwydd eu bod yn dibynnu i raddau helaeth ar y cyntaf. Ar adeg drafftio'r adroddiad hwn, roedd CNC yn cwblhau ei adolygiad strategol sy'n crynhoi maint Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a'u nodweddion hysbysedig i gwblhau'r canlyniad cyntaf.

19 Roedd staff y buom ni'n siarad gyda hwy'n canmol gwaith caled ac ymrwymiad y tîm Polisi a Strategaeth Bioamrywiaeth sy'n arwain yn y maes hwn ond yn cydnabod ei fod dan bwysau. Mae gwaith ar y tri chanlyniad wedi dibynnu'n drwm ar 1.7 o staff cyfwerth ag amser llawn o fewn y tîm.

20 Mae CNC bellach wedi trosglwyddo'r camau gweithredu mewn perthynas â Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig sydd heb eu cwblhau i'w gynllun busnes 2025-26, na wnaeth ei gwblhau'n derfynol tan fis Awst 2025. Mae'r cynllun busnes newydd yn ymrwymo i ddatblygu dull wedi'i gostio erbyn diwedd mis Rhagfyr 2025 a diweddaru'r llawlyfr erbyn diwedd mis Mawrth 2026.

## Nid oes gan CNC wybodaeth am gyflwr llawer o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig presennol na ffordd o flaenoriaethu gweithgarwch SoDdGA yn seiliedig ar nodweddion safleoedd

21 Mae gan CNC wybodaeth am nifer y Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, y tir y maent yn ei gwmpasu mewn hectarau, a nodweddion safleoedd fel cynefinoedd, rhywogaethau neu ddaeareg. Mae ganddo hefyd wybodaeth am gyflwr nodweddion ar safleoedd ar dir yn ei ofal.[5] Fodd bynnag, mae bylchau mawr mewn data ar gyflwr safleoedd y tu allan i ofal CNC, sy'n rhoi cyfrif am y mwyafrif o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yng Nghymru.

22 Yn 2020, fe wnaeth CNC adolygu'r wybodaeth sydd ganddo ar gyflwr pob SoDdGA dynodedig. Canfu:

- fod 20% o'r nodweddion ar safleoedd gwarchodedig mewn cyflwr ffafriol;
- bod 30% mewn cyflwr anffafriol; a
- bod cyflwr 50% o'r nodweddion yn anhysbys.

5 Mae CNC yn rheoli 37 o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol, Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru, a thir sy'n gysylltiedig ag asedau rheoli perygl llifogydd yn uniongyrchol.

23 Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth sydd gan CNC am rai nodweddion wedi cael ei diweddaru ers arolygon gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru 25 mlynedd yn ôl.[6] Gall nodweddion a chyflwr safleoedd fod wedi newid yn sylweddol dros amser.

24 Cyfyngedig hefyd yw'r wybodaeth sydd gan CNC am y potensial ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn y dyfodol. Yn 2021, lluniodd restr o 560 o ardaloedd a allai fod yn gymwys. Nid yw CNC wedi gwirio'r rhestr ac mae'n cydnabod ei bod yn annhebygol o fod yn gynrychiolaeth gywir, yn enwedig gan bod peth gwybodaeth ategol yn ddeng mlwydd oed. Dywedodd staff CNC wrthym fod angen ymarfer newydd i ddeall Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig posibl yn y dyfodol.

25 Mae'r bylchau hyn yn y data'n cyfyngu ar allu CNC i ddatblygu ei ddull strategol. Gallai data mwy dibynadwy siapio blaenoriaethau strategol; er enghraifft, i ganolbwyntio ar safleoedd yn ôl eu cyflwr neu fynd i'r afael â bylchau o ran diogelu rhai nodweddion ledled Cymru.

26 Ar adeg ein hadolygiad, roedd CNC yn archwilio dulliau eraill o fonitro safleoedd. Gan weithio gyda'i gyrff cyfatebol ledled y DU, mae CNC yn dechrau ystyried ffyrdd newydd o fonitro cyflwr Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig presennol er mwyn gallu diogelu mwy ohonynt, gan gynnwys asesiadau lefel uwch llai trylwyr. Mae un o dimau amgylchedd CNC hefyd wedi dechrau defnyddio ffotograffau o'r awyr i bwyso a mesur cyflwr ac i helpu i flaenoriaethu Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig posibl i hysbysu neu ail-hysbysu yn eu cylch. Fodd bynnag, nid yw'r dull yn cael ei ddefnyddio'n gyson ar draws pob un o'r 16 tîm amgylchedd.

27 Yn ogystal â bylchau mewn data, ar hyn o bryd nid oes gan CNC ffordd o flaenoriaethu hysbysiadau neu ail-hysbysiadau yn seiliedig ar nodweddion safleoedd.[7] Yn hytrach, mae hysbysiadau'n cael eu hysgogi i raddau helaeth gan faterion allanol sy'n ymwneud â chynlluniau datblygu adeiladau a bygythiadau posibl eraill i natur. Mae CNC yn cydnabod bod angen dull mwy rhagweithiol arno.

6 Roedd Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn un o dri sefydliad a ddygwyd ynghyd i greu CNC yn 2013, ochr yn ochr ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru.

7 O dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, rhaid ail-hysbysu ynghylch Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig presennol os canfyddir nodweddion newydd neu os bydd ffiniau'r safle'n newid.


## Dim ond nifer fach o safleoedd y mae CNC wedi bod yn eu dynodi bob blwyddyn, gyda lefelau staffio ymhell islaw'r hyn y mae ei angen i gyflymu gweithgarwch yn sylweddol

### Rhwng 2013 a 2024, dim ond 31 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a ddynododd CNC ac nid yw'r staff yn glir ar lefel y gweithgarwch dynodi a ddisgwylir ar hyn o bryd

28 Er ei fod yn gwybod am lawer o leoedd lle gall nodweddion fod yn gymwys i gael eu diogelu â dynodiad SoDdGA, dim ond naw safle y mae CNC wedi eu dynodi rhwng 2019 a 2024, a dim ond 31 y mae wedi eu dynodi ers iddo gael ei greu yn 2013, hyd at ddiwedd 2024. O'r 31 dynodiad hyn, mae pedwar wedi bod yn ail-hysbysiadau.

29 Dengys **Arddangosyn 1** fod gostyngiad sylweddol wedi bod mewn dynodiadau blynyddol ers 2012. Nid yw gweithgarwch erioed wedi bod yn fwy na phum dynodiad y flwyddyn galendr.

**Arddangosyn 1: dynodiadau SoDdGA blynyddol trwy hysbysiadau neu ail-hysbysiadau, 2010-2025[1, 2]**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata CNC

Nodiadau:

1 Cyn 2013, Cyngor Cefn Gwlad Cymru oedd yn dynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

2 Mae ail-hysbysiadau'n digwydd pan ddarganfyddir nodweddion newydd ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig presennol neu pan fydd ffiniau'r safle'n newid.

30 Ar adeg ein hadolygiad, roedd dau safle'n mynd i gael eu dynodi. Os cânt eu cadarnhau, byddant yn cynyddu cyfanswm y tir, y dŵr croyw a'r môr a ddiogelir gan ddynodiad SoDdGA yn sylweddol oherwydd eu maint. A hwythau'n gyfanswm cyfunol o 4,622 hectar, mae'r safleoedd hyn yn sylweddol fwy nag unrhyw un a ddynodwyd yn y 15 mlynedd flaenorol. Yn wir, maent yn fwy na'r cyfanswm o 3,635 hectar o dir, dŵr croyw a môr a ddiogelwyd â dynodiadau dros y cyfnod hwnnw.

31 Mae amryw aelodau o staff CNC yn ymwneud â gwahanol gamau o'r broses ddynodi. Swyddogion yr amgylchedd sy'n arwain y broses, gyda chymorth arbenigwyr technegol sydd â gwybodaeth am nodweddion y safle.

32 Gall hysbysu a dynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig fynd â llawer o amser. Dywedodd staff yn nhimau'r amgylchedd, sy'n cwmpasu ystod o swyddogaethau eraill, wrthym eu bod yn brin o amser i fwrw ymlaen â hysbysiadau ac ail-hysbysiadau oherwydd pwysau capasiti a blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd.

33 Nid oes gan CNC drefniadau wrth gefn i reoli'r risg o brinder staff ar ddynodiadau SoDdGA. Roedd staff yn pryderu, heb ragor o adnoddau, bod mwy o risg o golli'r terfyn amser statudol i ddynodi safle o fewn naw mis ar ôl hysbysu.

34 Yn fwy sylfaenol, nid oedd staff y siaradom ni gyda hwy yn glir ynghylch lefel y dynodiadau yr oedd disgwyl iddynt eu cyflawni. Roedd rhai'n teimlo y dylent fod yn hysbysu ynghylch mwy o safleoedd. Dywedodd eraill y dywedwyd wrthynt am atal gweithgarwch hysbysu am y tro oherwydd pwysau ar adnoddau neu eu bod yn meddwl y dylent fod yn atal gweithgarwch tra bo CNC yn datblygu ei ddull strategol.

35 Hefyd, mae CNC yn cydnabod bod angen iddo adolygu ei ganllawiau ar gyfer staff i adlewyrchu newidiadau yng nghanllawiau Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur y DU.[8] Mae angen iddo hefyd ddarparu eglurder pellach ar rai manylion gweithredol, megis canllawiau ar gyfer comisiynu arolygon technegol gan sefydliadau eraill. Mae CNC yn bwriadu cynnwys newidiadau o'r fath yn ei ddiweddariad i'r llawlyfr staff (gweler **paragraff 17**).

8 Mae Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur y DU yn cefnogi ac yn cydlynu gweithgarwch cadwraeth ar draws pedair gwlad y DU.

## Nid yw CNC yn gwybod gwir gost dynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ond mae'n cydnabod bod lefelau staffio ymhell islaw'r hyn y mae ei angen i gyflymu gweithgarwch

36 Nid yw CNC yn gwybod faint o arian y mae'n ei wario ar ddynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae cyfrifo amser staff i ddynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn gymhleth, yn enwedig gan bod gan staff gyfrifoldebau eraill. Mae amser staff hefyd yn amrywio rhwng safleoedd gan ddibynnu ar y nodweddion, nifer y tirfeddianwyr a'r meddianwyr, a gwrthwynebiadau i'r hysbysiad. Ceir hefyd gostau sy'n gysylltiedig â llogi lleoliadau ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu a hysbysiadau i'r wasg.

37 Mae CNC yn gwybod bod angen iddo gael dealltwriaeth well am nifer y staff a'r oriau a dreulir ar ddynodi. Yn 2021, amcangyfrifodd ymarfer cwmpasu mewnol fod dynodi safle o faint cyfartalog yn cymryd 51 diwrnod o amser staff tîm yr amgylchedd.[9] Nid oedd yr ymarfer yn cynnwys amser staff o dimau eraill, ac ni roddodd gyfrif am amrywiad rhwng safleoedd.

38 Ar adeg ein hadolygiad, roedd CNC wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran cyfrifo amser staff ar y cyfan a chostau eraill sy'n gysylltiedig â dynodi. Ond nid oedd wedi cadarnhau'r costau hynny'n derfynol nac wedi dechrau datblygu rhaglen hysbysu wedi'i chostio i gyflawni'r ymrwymiad yn ei gynllun busnes 2024-25 (gweler **paragraff 17**).

39 Mae CNC yn cydnabod, heb adnoddau ychwanegol, neu ffyrdd newydd o weithio, y byddai'n debygol o gymryd degawdau lawer i ddynodi'r holl ardaloedd a allai fod yn gymwys yng Nghymru. Fodd bynnag, gan nad oes gan CNC restr wedi'i gwirio o safleoedd posibl, mae'n anodd iddo ddeall yn llawn pa adnoddau y mae eu hangen ar gyfer y gwaith hwn (gweler **paragraff 24**).

40 Yn ogystal ag ansicrwydd ar safleoedd posibl, mae ansicrwydd hefyd ynghylch y cyfraniad y bydd mesurau diogelu newydd yn ei wneud i'r targed 30 wrth 30 (gweler **paragraff 12**). Fodd bynnag, er y gall mesurau o'r fath leihau'r ddibyniaeth ar SoDdGA i gyrraedd y targed, mae perygl o hyd na fydd CNC yn cydymffurfio â'i ddyletswydd statudol os nad yw'n hysbysu SoDdGA posibl sydd â nodweddion cymwys.

9 Seiliodd CNC ei amcangyfrif ar faint cyfartalog o 42 hectar ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig presennol ar y pryd.

## Mae pwysau ariannol diweddar wedi effeithio ar gapasiti ar weithgarwch a ariennir â chymorth grant, gan gynnwys dynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

### Mae pwysau o ran cyllid wedi golygu nad yw CNC wedi gallu diogelu capasiti staff i ddynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, er y gallai cyllid newydd gefnogi gweithgarwch dynodi yn y dyfodol

41 Mae **Atodiad 4** yn rhoi dadansoddiad o gyllid CNC yn 2024-25 yn ôl ffynhonnell. 'Cymorth grant' Llywodraeth Cymru yw'r gyfran fwyaf o incwm CNC.

42 Dechreuodd CNC 2024-25 â chyllideb o £268 miliwn a oedd yn cynnwys £103 miliwn o gymorth grant refeniw gan Lywodraeth Cymru. Fe wnaeth newidiadau mewn incwm a chyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru gynyddu'r cyfanswm terfynol ar gyfer 2024-25 i £284 miliwn.[10]

43 Dechreuodd CNC 2024-25 â diffyg yn y gyllideb staff o tua £9 miliwn. Roedd yn rhagweld y byddai'r diffyg hwnnw'n tyfu i £13 miliwn yn 2025-26 ac i £17 miliwn yn 2026-27 pe na bai'n gweithredu i gwtogi ar gostau.

44 Mae CNC wedi cymryd camau i fantoli ei gyllidebau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fe rewodd brosesau recriwtio ar gyfer pob swydd o fis Awst 2023 fel rhan o ymdrechion i fantoli ei gyllideb yn 2023-24. Parhaodd i rewi prosesau recriwtio wedyn tan Ebrill 2025.

45 Fe wnaeth rhewi prosesau recriwtio effeithio ar yr arbenigwyr technegol sy'n cynghori ar nodweddion safleoedd yn ystod y broses ddynodi. Ar adeg ein hadolygiad doedd dim arbenigwr ucheldiroedd, roedd yr arbenigwr infertebratau ar fenthyg o ran arall o CNC, ac roedd un arbenigwr rhostiroedd.[11] Nid oedd CNC wedi gwneud cynlluniau i gynyddu ei weithlu arbenigol technegol.

46 Cymerodd CNC gamau gweithredu mwy sylfaenol i ailstrwythuro yn 2024 trwy ei raglen 'achos dros newid'. Nod y rhaglen oedd arbed £13 miliwn mewn costau staff a chreu sefydliad ariannol gynaliadwy. Erbyn 1 Ebrill 2025, roedd CNC wedi cyflawni gostyngiad o £10.6 miliwn mewn costau staff cylchol blynyddol, gan gael gwared ag oddeutu 8% o'i swyddi staff.

10 Roedd y cynnydd yn bennaf o ganlyniad i gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys taliad sylweddol tuag at £14.6 miliwn o dreth yr oedd ar CNC i Gyllid a Thollau EF (CThEF) am rwymedigaethau mewn perthynas â chydymffurfio â'r rheolau ynghylch gweithio oddi ar y gyflogres a defnyddio contractwyr. Fe gytunodd Llywodraeth Cymru i sicrhau darparieth gyllidebol i roi cymorth gyda'r taliad. Bydd CNC yn ad-dalu'r swm i Lywodraeth Cymru trwy ostyngiadau yn ei gymorth grant dros flynyddoedd yn y dyfodol.

11 Cyn rhewi prosesau recriwtio, roedd gan CNC ddau arbenigwr ucheldiroedd, dau arbenigwr infertebratau, a dau arbenigwr rhostiroedd.

47 Fe geisiodd CNC ddiogelu staff mewn swyddi parhaol trwy gael gwared ar swyddi gwag yn ei broses ailstrwythuro, a oedd yn cynnwys dileu un swydd gyfwerth ag amser llawn â dyletswyddau penodol ar gyfer gwaith Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig gan gynnwys dynodi. Roedd y dull hwn yn golygu yr effeithiwyd yn arbennig ar y timau amgylcheddol a oedd â swyddi gwag. Mae CNC hefyd wedi newid rôl Swyddogion yr Amgylchedd (gweler **paragraff 31**), er mwyn dargyfeirio mwy o'u hamser at waith rheoleiddio o fis Ebrill 2025 ymlaen. Mae hefyd yn ystyried newid y rolau hynny ymhellach i gynyddu ymweliadau cydymffurfio â chwmnïau dŵr a busnesau sydd â hawlenni ansawdd dŵr neu drwyddedau echdynnu dŵr.

48 Mae CNC wedi datgan y bydd yr achos dros newid yn golygu y bydd gwaith i hysbysu ac ail-hysbysu ynghylch Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn 'parhau, ond ar lefel is'. Bydd hyn yn debygol o drosi'n llai o ddynodiadau, o'r hyn sydd eisoes yn sylfaen isel. Er gwaethaf ymroddiad amlwg y staff cysylltiedig, dim ond os yw'n cynyddu nifer y staff neu'n gwneud newid mwy sylfaenol i'w ddull gweithredu y bydd CNC yn gallu cynyddu dynodiadau.

49 Ym mis Hydref 2024, ysgrifennodd Cadeirydd CNC at Lywodraeth Cymru yn gofyn am £4 miliwn ychwanegol i osgoi lleihau lefelau gwasanaethau ar draws y sefydliad ac i fuddsoddi mewn gwelliannau digidol. Ym mis Tachwedd 2024, fe gytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu'r £4 miliwn ychwanegol fel rhan o gynnydd ehangach o oddeutu £13 miliwn i'w gyllid cymorth grant ar gyfer 2025-26.

50 Croesawodd CNC y cynnydd ond canfu fod y newid sydyn o gontractio i ehangu rhannau o'r sefydliad yn gryn her. Mae'n cymryd camau i reoli risgiau i gydnerthedd ariannol yn y dyfodol, gan ddefnyddio dewisiadau eraill yn lle recriwtio parhaol fel contractau am gyfnod penodol, allanoli, neu ddefnyddio aelodau eraill o staff yn wahanol. Bydd cyfleoedd hefyd i ddefnyddio technoleg ddigidol yn well i leihau'r pwysau ar staff.

51 Ar adeg ein hadolygiad, roedd CNC yn ystyried sut i ddyrannu'r cyllid ychwanegol ac roedd yn bwriadu gwario £600,000 ar ymrwymiadau bioamrywiaeth yn ei Gynllun Corfforaethol, gan gynnwys ei ddull o ymdrin â Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Nid oedd CNC yn bwriadu cyflwyno swyddi yn lle'r rhai a ddilëwyd o'i gyfarwyddiaeth Gweithrediadau yn uniongyrchol nac yn barhaol. Yn hytrach, roedd yn bwriadu creu pum rôl am gyfnod penodol i gefnogi dynodiadau a lleddfu rhywfaint o'r pwysau ar Swyddogion yr Amgylchedd.

52 Roedd CNC hefyd yn bwriadu recriwtio Uwch Syrfëwr Arbenigol i gefnogi ei ymdrechion i annog tirfeddianwyr a meddianwyr i reoli tir Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn gynaliadwy. Nid yw CNC wedi nodi eto beth fydd y capasiti ychwanegol yn ei olygu ar gyfer nifer y dynodiadau.

53 Er bod sefyllfa ariannol CNC wedi gwella, mae'n debygol y bydd dewisiadau anodd parhaus ynglŷn â sut i flaenoriaethu adnoddau. £298 miliwn yw cyllideb CNC ar gyfer 2025-26.

54 O ystyried newidiadau mewn trefniadau staffio ac ansicrwydd ynghylch y dyfodol, bydd hi'n bwysig i CNC ystyried sut orau y gall gadw a datblygu gwybodaeth am ddynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Hyd yn oed cyn rhewi prosesau recriwtio, ni fu rhyw lawer o gyfle i ddysgu'r broses oherwydd bod cyn lleied o ddynodiadau blynyddol. Er bod CNC wedi dylunio ei strwythurau sefydliadol i gefnogi prosesau dysgu ar y cyd, dywedodd staff wrthym nad yw hyn wastad yn digwydd yn ymarferol ar draws timau'r amgylchedd. Mae hyn yn risg bosibl i CNC.

## Mae diffyg capasiti staff yn cyfyngu ar ymgysylltiad CNC â rhanddeiliaid perthnasol, sy'n cyfyngu ar ei allu i weithio'n fwy effeithlon, a gwella rheoli tir

55 Er mwyn cydymffurfio â dyletswyddau statudol, mae Swyddogion yr Amgylchedd CNC yn ymgynghori â thirfeddianwyr, meddianwyr a rhanddeiliaid eraill yn ystod y broses ddynodi. Gall ymgysylltu da atal neu ddatrys gwrthwynebiadau i hysbysiad.

56 Mae angen i wrthwynebiadau heb eu datrys gael eu hystyried gan Bwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig CNC ynghyd â thystiolaeth sy'n ategu'r hysbysiad. Mae hyn yn golygu y gall ymgysylltu effeithiol, cynnar arbed amser ac arian. Fodd bynnag, gall ymgysylltu fynd â llawer o amser a bod yn anodd hefyd lle mae rhanddeiliaid yn codi pryderon.

57 Dywedodd Swyddogion yr Amgylchedd wrthym nad oes ganddynt amser i ymgysylltu'n rhagweithiol â pherchnogion Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig presennol. Gallai ymgysylltu o'r fath fod yn gyfle i ddeall risgiau newydd neu newidiadau i safleoedd, neu i gynnig cyngor ar reoli tir. Gallai hefyd adnabod ail-hysbysiadau posibl neu atal arferion rheoli tir gwael rhag cynyddu. Ceir hefyd gyfleoedd i ofyn am adborth ar y broses ddynodi, nad yw CNC yn ei wneud ar hyn o bryd.

58 Dywedodd llawer o staff y siaradom ni gyda hwy y gallai CNC a sefydliadau cyhoeddus ac amgylcheddol eraill wneud mwy i herio rhai canfyddiadau negyddol bod Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn cyfyngu ar ddefnydd tir ac yn creu gwaith i dirfeddianwyr a meddianwyr. Pan oedd Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn gyfrifol am Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, rhannodd gylchlythyr ar gyfer holl dirfeddianwyr a meddianwyr Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn dathlu arferion rheoli tir yn gynaliadwy. Pan sefydlwyd CNC, dewisodd beidio â pharhau â'r cylchlythyr.

59 Mae CNC yn defnyddio Cytundebau Rheoli Tir (LMAs) i annog tirfeddianwyr a meddianwyr i reoli tir Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn gynaliadwy.[12] Mae CNC wedi cynyddu ei gyllid ar y cyfan ar gyfer Cytundebau Rheoli Tir dros y blynyddoedd diwethaf. Mae wedi gwneud hyn trwy dynnu ar gyllid cyfalaf allanol arall. Mae cyllid refeniw CNC ar gyfer Cytundebau Rheoli Tir wedi lleihau ychydig ers 2020-21, ond mae wedi osgoi gostyngiadau pellach trwy sicrhau cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn 2024-25 a 2025-26. Mae'n bwriadu gwario £3.6 miliwn ar y cyfan ar Gytundebau Rheoli Tir yn 2025-26.

60 Nid oedd CNC yn gallu rhoi gwybodaeth fanwl i ni am ddyraniadau blynyddol ar gyfer Cytundebau Rheoli Tir ers 2016 y tu hwnt i'w wariant ar y cyfan. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, ddosbarthiad daearyddol ac effaith ddaearyddol Cytundebau Rheoli Tir ledled Cymru. Dywedodd CNC wrthym fod cyfyngiadau yn ei systemau digidol a materion ansawdd data'n rhwystro ei allu i adrodd ar ddyraniadau blynyddol yn y fath fanylder (gweler hefyd **paragraff 68**). Byddem yn disgwyl i'r wybodaeth hon fod ar gael i oleuo asesiad parhaus o werth am arian cyffredinol Cytundebau Rheoli Tir a dull strategol cyffredinol CNC o ymdrin â Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Ni wnaethom fwrw golwg ar sut y mae CNC yn dyrannu cyllid ac yn monitro cydymffurfiaeth â'r Cytundebau Rheoli Tir.

61 Yn fwy cyffredinol, mae adnoddau staff yn cyfyngu ar allu CNC i ymgysylltu â phartneriaid posibl fel tirfeddianwyr a meddianwyr mawr a sefydliadau amgylcheddol. Mae gan rai o'r partneriaid posibl hyn eu huchelgeisiau bioamrywiaeth eu hunain a mynediad at gyllid sylweddol.

12 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn rhoi pwerau i CNC ymrwymo i gytundebau gwirfoddol gyda thirfeddianwyr neu bersonau eraill trwy Gytundebau Rheoli Tir. Yn 2026, bydd trefniadau ar gyfer Cytundebau Rheoli Tir yn newid yn dilyn cyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

62 Gellid cryfhau cydweithio mewnol ar draws CNC hefyd i fod o gymorth gyda blaengynllunio. Clywsom fod gwybodaeth am safleoedd hysbysedig wedi cael ei rhannu gyda Thîm Stiwardiaeth Tir CNC, sy'n rheoli tir yn ei ofal. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth honno bob amser yn cael ei dosbarthu ar draws gwahanol rannau o'r tîm i ategu eu dealltwriaeth am faterion mynediad a rheoli ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a thir cyfagos.

## Mae systemau digidol CNC wedi dyddio, yn dameidiog, ac nid ydynt o gymorth i rannu data'n effeithiol

63 Fel a nodwyd ym **mharagraff 21**, mae gan CNC wybodaeth benodol am Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, er bod bylchau mawr yn ei sylfaen wybodaeth hefyd. Hefyd, mae'r wybodaeth sydd ganddo wedi'i darnio ar draws pedair ffynhonnell wahanol nad ydynt wedi'u cysylltu sy'n ei gwneud hi'n anodd i staff rannu gwybodaeth neu weithio gyda'i gilydd. Dywedodd staff fod systemau digidol yn 'edwino' ac yn 'diffygio'.

64 Mae'r pedair ffynhonnell yn ymdrin â gwybodaeth am:

- nodweddion, materion, risgiau a rheoli Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig – a gynhelir ar ei system safleoedd gwarchodedig AMX;
- caniatadau a chydsyniadau ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig;
- cyflwr Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig; a
- rheoli Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ar dir yng ngofal CNC.

65 Cyhoeddodd CNC wybodaeth am gyflwr Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig o'i adolygiad sylfaenol yn 2020 (gweler **paragraff 22**) mewn un offeryn data. Nid yw'r offeryn wedi cael ei ddiweddaru ers hynny i gynnwys canlyniadau asesiadau newydd o'u cyflwr.

66 Dywedodd staff CNC wrthym hefyd y cyfyngir ar gydweithio allanol gan ddiffyg platfform allanol i rannu gwybodaeth gyda thirfeddianwyr a meddianwyr ar nodweddion Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a chamau gweithredu a argymhellir i reoli'r tir. Yn y gorffennol, roedd CNC yn caniatáu i rai rhanddeiliaid gael mynediad at ei ddata'n uniongyrchol, ond fe ataliodd fynediad at ei system yn 2017 i fynd i'r afael â risgiau i seiberddiogelwch.

67 Mae CNC bellach yn ymateb i geisiadau allanol ad hoc am wybodaeth am Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig trwy dynnu gwybodaeth o'i systemau â llaw. Mae'r broses yn mynd â llawer o amser ac yn dibynnu ar dirfeddianwyr rhagweithiol sy'n gwybod sut i ofyn am yr wybodaeth.

68 Roedd CNC wedi bwriadu'n flaenorol i'w system safleoedd gwarchodedig AMX gynnwys gwybodaeth am Gytundebau Rheoli Tir, cyflwr safleoedd, a bod â gwybodaeth am nodweddion a chyflwr safleoedd ar gael i randdeiliaid allanol ei chyrchu. Fodd bynnag, cafodd cynlluniau eu lleihau oherwydd diffyg capasiti digidol. Mae CNC yn ystyried gwelliannau i'w feddalwedd fel rhan o raglen drawsnewid ehangach ond nid yw wedi penderfynu ar y ffordd ymlaen eto. Bydd yn rhaid iddo daro cydbwysedd rhwng ei benderfyniad ynglŷn â buddsoddi ar y naill law a chynigion i drawsnewid rhannau eraill o'i fusnes ar y llaw arall.

## Nid oes gan CNC wybodaeth ddigonol i oruchwylio perfformiad ac nid yw wedi bod yn rheoli risgiau i gyflawni mewn modd effeithiol

### Nid yw CNC wedi bod yn adnabod, yn asesu nac yn uwchgyfeirio'r risgiau sy'n gysylltiedig â dynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn effeithiol

69 Ceir risgiau sy'n gysylltiedig â'r broses ddynodi, yn enwedig bod CNC yn methu â chyflawni ei ddyletswyddau statudol i hysbysu ynghylch Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig i'w dynodi, ac i ddynodi safleoedd yr hysbyswyd yn eu cylch o fewn yr amserlen ddisgwyliedig o naw mis. Fodd bynnag, nid yw risgiau o'r fath yn cael eu hadnabod, eu hasesu a'u huwchgyfeirio'n effeithiol trwy lefelau rheoli.

70 Ar adeg ein hadolygiad, dim ond un risg gysylltiedig oedd ar gofrestr risgiau Grŵp Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau CNC, sef y gofrestr drosfwaol sy'n ymgorffori safleoedd gwarchodedig ochr yn ochr â risgiau mewn perthynas â gwaith bioamrywiaeth ehangach CNC.[13] Roedd asesiad risg yr achos dros newid yn nodi rhai risgiau ehangach sy'n gysylltiedig â Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ond nid yw'r wybodaeth wedi cael ei chynnwys ar gofrestrau risgiau gweithredol.[14]

13 Mae **Arddangosyn 3** yn **Atodiad 2** yn dangos rôl y Grŵp fel rhan o drefniadau llywodraethu ehangach. Y risg a adnabuwyd yn y gofrestr risg oedd 'cyngor a rheoli amhriodol mewn perthynas â safleoedd gwarchodedig oherwydd diffyg cyfarwyddyd a bylchau mewn canllawiau'.

14 Er enghraifft, 'methiant i gyrraedd y targedau 30 erbyn 30 mewn perthynas â diogelu a rheoli', 'methiant i gyflawni ar y sefyllfa fel y mae oherwydd gostyngiadau yn adnoddau Tîm yr Amgylchedd', a 'dirywiad y rhwydwaith safleoedd gwarchodedig a cholli rhagor o fioamrywiaeth oherwydd diffyg rheolaeth gadarnhaol a newidiadau i arferion rheoli tir'.

71 Nid oedd yn ymddangos bod rheoli risg yn ffurfiol yn cael ei flaenoriaethu ymhlith y staff y siaradom ni gyda hwy. Dywedodd rhai rheolwyr ac uwch arweinwyr wrthym eu bod yn ymwybodol o risgiau gweithredol ond eu bod yn derbyn nad oedd y risgiau hynny, a'r ymdrechion i'w lliniaru, yn cael eu cofnodi fel arfer.

72 Mae CNC wedi cydnabod bod gwendidau yn ei ddull sefydliadol o reoli risg. Rhoddodd orchwyl i'w Bennaeth Archwilio Mewnol ddiweddaru ei ddull. Roedd yr ymarfer diweddaru wedi'i fwriadu i ganolbwyntio ar symleiddio trefniadau CNC a datblygu llinellau gweledigaeth cliriach o lefel weithredol i lefel y weithrediaeth a'r bwrdd. Nid oedd yr ymarfer diweddaru wedi dechrau ar adeg ein gwaith maes, ond rydym yn deall bod newidiadau wedi cael eu cyflwyno erbyn hyn.

## Nid oes gan CNC ddealltwriaeth ddigon da am y cynnydd tuag at yr uchelgais yn ei gynllun corfforaethol ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac effeithlonrwydd ac effaith ei waith dynodi

73 Ar hyn o bryd, mae adroddiadau mewnol CNC yn cynnwys tracio canlyniadau allweddol yn erbyn yr ymrwymiadau yn ei gynllun busnes. Mae hefyd yn darparu diweddariadau naratif i'w Bwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig a'i Grŵp Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau ar gynnydd gyda hysbysiadau ac ail-hysbysiadau byw, er nad yw'r rhain yn cynnwys dadansoddiad o dueddiadau mewn hysbysiadau ac ail-hysbysiadau dros amser.

74 Mae **paragraffau 21 i 25** a **36 i 40** yn disgrifio bylchau yng ngwybodaeth CNC am gyflwr Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig presennol ac amser staff a chostau dynodi. Mae bylchau sylweddol eraill mewn gwybodaeth reoli'n cynnwys buddsoddiad blynyddol mewn Cytundebau Rheoli Tir (gweler **paragraff 60**), y gyfran o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig sydd â Chytundebau Rheoli Tir, ac amseroldeb pob cam o'r broses ddynodi i roi cymorth i ddysgu a gwella.

75 Mae cynllun busnes CNC 2024-25 yn nodi ei ddull o ddeall cynnydd tuag at ei amcanion llesiant. Ei nod yw mesur cynnydd tuag at ei ddeilliannau strategol hirdymor yn ogystal ag allbynnau gweithredol tymor byrrach. Ar adeg ein hadolygiad, cerrig milltir oedd yr unig fetrigau ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yr oedd CNC yn adrodd yn eu herbyn, yn hytrach na mesurau allbynnau a deilliannau.

76 Yn ddiweddar, mae CNC wedi dechrau datblygu mesurau perfformiad ar gyfer ei waith i estyn y gyfres o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, sy'n debygol o gynnwys:

- mesurau ar yr hectarau a ddiogelir yn flynyddol trwy ddynodi tir, dŵr croyw a môr yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig;
- canran y safleoedd sydd wedi'u cynnwys mewn Cytundebau Rheoli Tir; a
- mesurau i ddeall effeithlonrwydd y broses ddynodi.

77 Bydd hyn yn hanfodol er mwyn i CNC fwrw ymlaen ag ehangu'r gyfres, ar adeg pan fo adnoddau dan straen. Bydd yn rhaid i CNC hefyd ystyried sut y mae ei waith ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn cyfrannu at gamau gweithredu i gyflawni dyheadau eraill yn ei gynllun corfforaethol y tu hwnt i ddiogelu natur yn unig.

78 Bydd angen i CNC hefyd ystyried sut y gall ymgorffori mesurau effeithiolrwydd yn seiliedig ar adborth rhanddeiliaid yn y fframwaith. Mae'n gofyn am adborth gan staff ac arbenigwyr technegol sy'n mynychu pob un o gyfarfodydd ei Bwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig i adnabod ffyrdd o wella'r cyfarfodydd. Fodd bynnag, ceir bwlch ym mewnwelediad CNC oherwydd nad yw'n gofyn i dirfeddianwyr a meddianwyr am eu hadborth ar y cyfarfodydd nac agweddau eraill ar y broses ddynodi (gweler hefyd **paragraff 57**).

## Mae gan CNC strwythurau i oruchwylio gwaith mewn perthynas â Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ond cyfyngir ar yr oruchwyliaeth hon gan y diffyg gwybodaeth ddigonol am berfformiad a rheoli risg

79 Mae gan CNC amryw strwythurau llywodraethu gweithredol ac ar lefel y bwrdd i oruchwylio dynodiadau Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a gwaith cysylltiedig ehangach. Yn benodol:

- Mae swyddogion yn darparu goruchwyliaeth weithredol trwy'r Bwrdd Busnes Rheoli Adnoddau Naturiol. Cefnogir y Bwrdd gan yr is-grŵp Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau a'r Grŵp Technegol Safleoedd Gwarchodedig. Mae amryw grwpiau eraill yn bwydo i mewn i'r strwythurau hyn (gweler **Arddangosyn 3** yn **Atodiad 2**). Mae'r is-grŵp yn darparu adroddiadau bob deufis i'r tîm gweithredol.

- Mae'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig yn goruchwylio'r broses ddynodi, gan gael diweddariadau naratif ar gynnydd gyda hysbysiadau ac ail-hysbysiadau byw. Mae'n darparu adroddiadau sicrwydd rheolaidd i'r bwrdd ac, fel a nodir ym **mharagraff 56**, mae'n ystyried gwrthwynebiadau sydd heb eu datrys.
- Mae aelodau'r tîm gweithredol yn gweithredu fel noddwyr i ddarparu arweinyddiaeth a gwaith cyflawni ar draws yr amcanion llesiant. Mae noddwyr yn cwrdd bob chwarter i adolygu perfformiad yn erbyn ymrwymiadau yn y cynllun busnes.
- Mae bwrdd CNC yn goruchwylio'r modd y cyflawnir y cynllun corfforaethol gan gynnwys cynnydd yn erbyn yr amcan llesiant 'byd natur wrthi'n gwella'. Mae'n cael adroddiadau chwarterol ar berfformiad ac yn cynnal sesiynau adolygu dwfn ar bob amcan llesiant trwy gydol y flwyddyn ariannol. Cynhaliwyd y sesiwn 'byd natur wrthi'n gwella' ar gyfer 2024-25 ym mis Mai 2024 ac roedd yn canolbwyntio ar ddull CNC o ymdrin â safleoedd gwarchodedig.

80 Rhyngddynt, mae'r grwpiau hyn yn cael gwybodaeth gyffredinol am waith ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Fodd bynnag, fel a amlinellir uchod, nid oes gan CNC fesurau perfformiad digonol ac nid oedd wedi bod yn rheoli risg yn effeithiol. Mae hyn yn cyfyngu ar oruchwyliaeth gan y bwrdd a'r pwyllgor.

81 Ni wnaethom fwrw golwg fanwl ar effeithiolrwydd strwythurau goruchwylio CNC. Fodd bynnag, nid oedd hi'n glir i aelodau'r Grŵp Technegol Safleoedd Gwarchodedig y siaradom ni gyda hwy beth oedd yr agweddau ar ei rôl a'i gyfrifoldebau, yn enwedig ei bwerau penderfynu. Hefyd, lle'r oedd y Grŵp wedi uwchgyfeirio penderfyniadau i'r Grŵp Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau, nid oedd y canlyniad bob amser yn cael ei fwydo'n ôl i'r Grŵp Safleoedd Gwarchodedig ac nid oedd y Grŵp ei hun yn ceisio diweddariad.

# Argymhellion

82 Mae rhai o'r argymhellion yr ydym wedi'u gwneud yn berthnasol i faterion ehangach a godwyd gan ein hadolygiad o sut y gwnaeth CNC bennu ei amcanion llesiant yn 2023. Fe wnaethom argymell yn flaenorol y dylai CNC sicrhau bod ei brosesau cynllunio ariannol a busnes yn cyd-fynd â'i gilydd yn well i sicrhau bod ei amcanion llesiant yn siapio penderfyniadau ynglŷn â darparu gwasanaethau, dyrannu adnoddau, a thargedau arbedion. Fe wnaethom argymell hefyd y dylai CNC sicrhau bod mesurau perfformiad gwasanaethau a mesurau i oruchwylio cynnydd o ran cyflawni ei amcanion llesiant yn cyd-fynd â'i gilydd.

## Datblygu'r dull o ymdrin â Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

**A1** Dylai CNC ddatblygu dull strategol eglur o ehangu'r gyfres o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a'u cysylltu yn well, sy'n ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Wrth wneud hynny, dylai wneud y canlynol:

**1.1** Penderfynu sut y bydd yn blaenoriaethu ei weithgarwch i estyn y gyfres o safleoedd a'u cysylltu'n well i helpu i gyrraedd y Targed 30 erbyn 30, ochr yn ochr â mesurau diogelu eraill, a'r cynnydd sy'n ofynnol bob blwyddyn (**paragraff 16**).

**1.2** Datblygu darlun clir o safleoedd posibl a ffordd gyson o'u blaenoriaethu ar gyfer hysbysu ac ail-hysbysu (**paragraffau 24 a 27**).

**1.3** Nodi sut y bydd yn mynd ati'n fwy rhagweithiol i gynnwys rhanddeiliaid allanol yn y broses i atal arferion rheoli tir gwael ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac archwilio cyfleoedd i gydweithio (**paragraffau 57 i 58, a 66**).

**A2** Dylai CNC asesu opsiynau ar gyfer sut y gall wella ei ddealltwriaeth am gyflwr Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig presennol a gweithredu i wneud hynny (**paragraff 21 i 23**).

**A3** Dylai CNC nodi ei fodel ar gyfer cyflawni'r rhaglen Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig gan gynnwys:

**3.1** Pa staff fydd yn cyfrannu at y rhaglen Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a pha gyfran o'u llwyth gwaith fydd yn ei chymryd, dyraniad adnoddau ar draws timau seiliedig-ar-leoedd, a sut y bydd yn defnyddio staff mwy profiadol i roi cymorth i ddysgu (**paragraffau 36 i 39, 43 i 47, a 53**).

**3.2** Sut y bydd yn mynd ati'n well i rannu gwybodaeth am hysbysiadau newydd gyda'i Dîm Stiwardiaeth Tir i wella blaengynllunio i reoli tir ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu ar eu pwys (**paragraff 62**).

## Integreiddio systemau digidol

**A4** Dylai CNC egluro a fydd yn buddsoddi mewn gwelliannau i integreiddio ei system safleoedd gwarchodedig AMX â ffynonellau digidol eraill, gan gynnwys graddfeydd amser ar gyfer gweithredu (**paragraff 68**).

## Gwella goruchwyliaeth

**A5** Dylai CNC gryfhau sut y mae'n rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â dynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig trwy adnewyddu ei asesiad risg fel rhan o'r gwaith arfaethedig gan Archwilio Mewnol i ddiweddaru trefniadau rheoli risg sefydliadol ehangach (**paragraffau 69 i 72**).

**A6** Dylai CNC gadarnhau'n derfynol beth yw'r mesurau yn ei fframwaith perfformiad Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig arfaethedig i ddeall effeithlonrwydd, cost-effeithiolrwydd, ac effaith ei raglen ddynodi. Wrth wneud hynny, dylai wneud y canlynol:

**6.1** Dangos sut y mae gwaith Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn cyfrannu at gamau gweithredu i gyflawni amcanion eraill yn y cynllun corfforaethol (**paragraff 79**).

**6.2** Sicrhau bod mesurau perfformiad yn ymgorffori adborth rhanddeiliaid ar y broses ddynodi, gan gynnwys gan dirfeddianwyr a meddianwyr (**paragraff 78**).

**A7** Dylai CNC weithio gyda'i Bwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig a'i Fwrdd Rheoli Adnoddau Naturiol i benderfynu pa wybodaeth am berfformiad o ran dynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig y byddant yn ei chael a pha mor aml (**paragraff 80**).

**A8** Dylai CNC adolygu effeithiolrwydd grwpiau allweddol sy'n ymwneud â'i strwythurau goruchwylio ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig i sicrhau bod y rolau a'r cyfrifoldebau a'r trefniadau rhannu gwybodaeth yn glir (**paragraff 81**).

# Atodiadau

1 Ynglŷn â'n gwaith

2 Cynllunio corfforaethol a busnes CNC, a'i oruchwyliaeth ar safleoedd gwarchodedig

3 Proses ddynodi CNC

4 Cyllid CNC

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym wedi bod yn llunio ein rhaglen waith o amgylch pedair thema allweddol. Un ohonynt yw'r argyfwng hinsawdd a natur. Fe wnaethom ddewis canolbwyntio ar ddull CNC o ymdrin â Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig fel rhan allweddol o'i waith i gyrraedd y nod i estyn y tir, y dŵr croyw a'r môr a ddiogelir i 30% erbyn 2030.

Mae'r gwaith hwn yn dilyn ein hadroddiad ar y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau ym mis Mawrth 2025. Roedd yr adroddiad hwnnw'n canolbwyntio ar sut y mae cyrff, gan gynnwys CNC, wedi ymateb i ofynion cynllunio a/neu adrodd allweddol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae ein gwaith ar ddynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig hefyd yn dilyn ein hadolygiad yn 2023 o sut y gwnaeth CNC bennu ei amcanion llesiant trwy ei gynllun corfforaethol cyfredol.

Fel rhan o'n gwaith, fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae dull CNC o ddynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn dangos ei fod yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r ffyrdd disgwyliedig o weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n ymwneud â gweithredu mewn modd 'sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'. Er mwyn gwneud hyn, rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried pum ffordd o weithio; hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys.

Mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth yr ydym wedi'i hystyried yn ymwneud â threfniadau dynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig cyfredol CNC a'r datblygiadau sy'n berthnasol iddynt dros y pedair i bum mlynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi ystyried tystiolaeth sy'n ymwneud â gweithgarwch dynodi ers creu a chyn creu CNC yn 2013 a thueddiadau yn ei gyllid dros y cyfnod hwnnw. Ni wnaethom geisio barn rhanddeiliaid allanol sy'n ymwneud â'r broses ddynodi'n uniongyrchol.

Mae'r meysydd yr ydym yn cyffwrdd arnynt yn yr adroddiad hwn ond na wnaethom eu harchwilio'n fanwl yn cynnwys effeithiolrwydd cyffredinol y canlynol gan CNC:

- ei drefniadau i ddyrannu gwariant ar Gytundebau Rheoli Tir (gweler **paragraffau 59 i 60**) a monitro cydymffurfiaeth â hwy a'u deilliannau;
- ei strwythurau goruchwylio sy'n ymwneud â Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig;
- ei ddull o ddiogelu mathau eraill o safleoedd gwarchodedig, gan gynnwys ardaloedd morol gwarchodedig.

# Cwestiynau a meini prawf archwilio

## Cwestiynau

Fe wnaeth ein gwaith ganolbwyntio ar dri chwestiwn penodol:

- A oes gan CNC ddull effeithiol o adnabod a blaenoriaethu Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig posibl i helpu i gyrraedd ei nod i estyn y tir, y dŵr croyw a'r môr a ddiogelir i 30% erbyn 2030?
- A oes gan CNC ddull effeithiol o ddynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig?
- A oes gan CNC drefniadau priodol i oruchwylio ac adolygu ei broses ddynodi?

## Meini prawf

Fe ddefnyddiom ni ystod o ffynonellau i ddatblygu ein meini prawf archwilio, gan gynnwys:

- Canllawiau Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur y DU a Llawlyfr Gweithredol Hysbysu ynghylch Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig CNC:
- Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981; a hefyd
- Canllawiau mewnol Archwilio Cymru, gan gynnwys ein 'dangosyddion cadarnhaol', sy'n set enghreifftiol o nodweddion sy'n disgrifio sut y gellid cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn effeithiol. Mae'r dangosyddion hyn wedi cael eu defnyddio i oleuo archwiliadau blaenorol o gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Fe'u datblygwyd trwy ymgysylltu â chyrff cyhoeddus ac fe'u goleuwyd gan gyngor ac arweiniad gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

# Dulliau

Fe wnaethom gynnal y rhan fwyaf o'n gwaith maes yn ystod mis Ionawr a mis Mawrth 2025, er ein bod wedi gofyn am wybodaeth ychwanegol gan CNC ar ôl hynny. Fe ddefnyddiom ni'r dulliau canlynol:

- adolygu dogfennau sy'n ymwneud â chynllunio a rheoli'r broses ddynodi ac ymrwymiadau strategol ehangach CNC yn ei gynlluniau corfforaethol a busnes.
- dadansoddi data ariannol a data ar berfformiad sy'n ymwneud â dynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a gwybodaeth ehangach am faterion ariannol CNC.
- cyfweliadau gyda staff perthnasol yn CNC o lefel swyddogion i lefel Cyfarwyddwyr Gweithredol, ac aelodau o'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig.
- dau grŵp ffocws i glywed barn gan sampl o bedwar arbenigwr cynefinoedd a rhywogaethau yn CNC, a chan bum Swyddog yr Amgylchedd ac arbenigwr technegol yn CNC. Roedd y rhai a gymerodd ran yn dod o wahanol dimau seiliedig-ar-leoedd ac arbenigeddau.

# 2 Cynllunio corfforaethol a busnes CNC, a'i oruchwyliaeth ar safleoedd gwarchodedig

Mae cynllun corfforaethol CNC ar gyfer y cyfnod 2023-2030 yn nodi ei amcanion llesiant a'r camau y bydd yn eu cymryd i'w cyflawni. Dengys **Arddangosyn 2** sut y mae uchelgais CNC i ehangu'r gyfres o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a'u cysylltu'n well yn ategu ei amcanion llesiant a sut y mae'r uchelgais ei hun yn cael ei ategu gan gamau gweithredu yn ei gynllun busnes ar gyfer y cyfnod 2024-25.

**Arddangosyn 2: Camau gweithredu sy'n gysylltiedig â Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yng nghynllun corfforaethol CNC a'i gynllun busnes ar gyfer y cyfnod 2024-25**

**Cynllun Corfforaethol 2023-30: Pobl a Natur yn Ffynnu**

Amcan llesiant 1:
Byd natur wrthi'n gwella

Amcan llesiant 2:
Cymunedau yn gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd

Amcan llesiant 3:
Llygredd yn cael ei atal hyd yr eithaf

→

- Byd natur yn cael ei ddiogelu
- Byd natur yn cael ei adfer
- Byd natur yn cael ei barchu a'i werthfawrogi wrth wneud penderfyniadau
- Perthynas byd natur, pobl a chymunedau yn cael ei ailsefydlu
- CNC yn sefydliad enghreifftiol o ran bod yn bositif am natur

→

Ehangu'r gwaith o ddiogelu a rheoli'n gynaliadwy er budd natur o leiaf 30% o dir, dŵr croyw a'r môr, a hynny drwy nodi cyfleoedd i ehangu'r gyfres o SoDdGA, a'u cysylltu'n well â'i gilydd erbyn 2030

↓

**Cynllun Busnes 2024-25**

Cyfuno tystiolaeth i nodi blaenoriaethau ar gyfer hysbysu ac ailhysbysu safleoedd sy'n cyfrannu at y targed '30 erbyn 30' gyda 3 chanlyniad allweddol:

→

1: gwella dealltwriaeth o faint a chysylltedd y rhwydwaith SoDdGA presennol trwy gwblhau asesiad o bob safle erbyn diwedd chwarter 3

2: mwy o gyngor i gyflymu hysbysu ac ailhysbysu trwy gyhoeddi'r llawlyfr hysbysu SoDdGA

3: cynyddu effeithiolrwydd y dyraniad o fuddsoddiad ar gyfer cyflwyno rhaglen hysbysu well trwy gyflwyno rhaglen wedi'i chostio yn seiliedig ar dystiolaeth o fesurau allweddol i'w cyflenwi 1 a 2

Ffynhonnell: Archwilio Cymru, ond yn seiliedig ar gynlluniau CNC

Mae Grŵp Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau CNC yn goruchwylio dull y sefydliad o ymdrin â Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a safleoedd gwarchodedig eraill, gyda chymorth gan y Grŵp Technegol Safleoedd Gwarchodedig. Mae'r Grŵp Technegol yn rhannu gwybodaeth gyda rhannau perthnasol eraill o'r sefydliad a/neu'n cael gwybodaeth ganddynt, gan gynnwys yn uniongyrchol gyda/gan y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o wybodaeth yn llifo i fyny trwy'r strwythurau goruchwylio a nodir yn **Arddangosyn 3**.

**Arddangosyn 3: Prif strwythurau goruchwylio CNC a llifoedd gwybodaeth ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig**

**Bwrdd CNC**

Mae'n goruchwylio'r modd y mae CNC yn cyflawni ei gynllun corfforaethol

**Tîm gweithredol**

Mae'n darparu goruchwyliaeth ar berfformiad yn erbyn amcanion llesiant, risgiau ar lefel gwasanaethau a materion

**Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig**

Mae'n goruchwylio gwrthwynebiadau i hysbysiadau ac ail-hysbysiadau SoDdGA ar ran y Bwrdd

**Bwrdd Busnes Rheoli Adnoddau Naturiol**

Mae'n darparu goruchwyliaeth a phroses benderfynu ar gyfer busnes rheoli adnoddau naturiol

**Is-grŵp Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau**

Mae'n darparu goruchwyliaeth a phroses benderfynu o natur dechnegol ar gyfer busnes bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau

**Grŵp Technegol Safleoedd Gwarchodedig**

Mae'n darparu goruchwyliaeth ac argymhellion i'r Grŵp Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau ar bolisi, strategaeth a chyflawni dynodiadau safleoedd gwarchodedig

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

Nodyn: Mae byrddau rheoli eraill – gan gynnwys y rhai ar gyfer busnes rheoleiddio a stiwardiaeth tir – yn rhannu gwybodaeth gyda'r Bwrdd Busnes Rheoli Adnoddau Naturiol lle mae gwybodaeth yn ymwneud â rheoleiddio Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu reoli Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ar dir sydd yng ngofal CNC.

# 3 Proses ddynodi CNC

Mae **Arddangosyn 4** yn nodi pob cam ym mhroses ddynodi CNC. Mae gan CNC ddyletswydd statudol i hysbysu ynghylch tir sydd â diddordeb arbennig fel SoDdGA, yn ôl yr hyn a adnabuwyd trwy arolygon a thystiolaeth arall. Rhaid iddo wedyn, o fewn naw mis i hysbysu, naill ai cadarnhau (dynodi) y safleoedd hynny fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (gydag addasiadau neu hebddynt) neu dynnu ei hysbysiad yn ôl.

**Arddangosyn 4: camau y mae CNC yn eu cymryd i hysbysu ynghylch Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a'u dynodi**

| | |
|---|---|
| **Paratoi** | • Arolwg a thystiolaeth o nodweddion a arweinir gan Swyddogion yr Amgylchedd CNC ac a gefnogir gan arbenigwyr technegol CNC<br>• Cadarnhad bod y safle'n cyd-fynd â chanllawiau'r DU ar gyfer dethol SoDdGA ar sail gwyddor fiolegol a gwyddor daear, a gyhoeddwyd gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur<br>• Cyswllt â pherchnogion / meddianwyr |
| **Cymeradwyaeth i hysbysu** | • Fe'i darperir gan Gyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau CNC ar ôl adolygu'r dystiolaeth |
| **Hysbysu** | • Hysbysir ynghylch safleoedd ar ddyddiad a ddewiswyd<br>• Gosodir hysbysiadau ar y safle ac mewn papurau newydd lleol<br>• Anfonir llythyrau at ymgyngoreion statudol a'r holl berchnogion a meddianwyr gan nodi dyddiad cau ar gyfer ymatebion yn y cyfnod ymgynghori ffurfiol o 3 i 4 mis |
| **Ymgynghori** | • Gellir cael gwrthwynebiadau neu sylwadau. Mae CNC yn ceisio datrys gwrthwynebiadau ac mae'n atgyfeirio gwrthwynebiadau heb eu datrys at ei Bwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig |
| **Cymeradwyaeth i gadarnhau** | • Mae'r Pwyllgor yn ystyried gwrthwynebiadau heb eu datrys a gall ymweld â rhannau o'r safle y mae'r gwrthwynebiad yn ymwneud â hwy. Mae'n cwrdd i glywed gwrthwynebiadau sydd heb eu datrys a gall gymeradwyo'r cadarnhad ar gyfer safleoedd fel SoDdGA (gydag addasiadau neu hebddynt). Gall hefyd wrthod y cadarnhad, ac os felly tynnir yr hysbysiad yn ôl<br>• Gall safleoedd sydd heb unrhyw wrthwynebiadau gael eu dwyn ymlaen ar gyfer cymeradwyaeth fewnol gan CNC heb gyfarfod Pwyllgor |
| **Dynodiad wedi'i gwblhau** | • Anfonir llythyrau cadarnhau a mapiau at ymgyngoreion statudol, perchnogion a meddianwyr a'r rheiny'n adlewyrchu unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt gan y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig<br>• Rhaid i'r cadarnhad gael ei wneud o fewn 9 mis i'r dyddiad hysbysu, neu rhaid ailddechrau'r broses o'r cychwyn |


Source: Audit Wales

# 4 Cyllid CNC

Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth gyd-destunol am gyllid CNC ar y cyfan gan bod cyfyngiadau ariannol yn effeithio ar waith dynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig hefyd. Mae **Arddangosyn 5** yn disgrifio cyfanswm y cyllid ar ddiwedd 2024-25, sef £284 miliwn (gweler **paragraffau 42 i 43**).

'Cymorth grant' Llywodraeth Cymru yw ffynhonnell incwm fwyaf CNC, sy'n ariannu ei fusnes craidd gan gynnwys dynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.[15] Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu grantiau ar gyfer rhaglenni penodol. Mae CNC yn creu incwm arall o gynlluniau codi tâl rheoleiddiol, ac o incwm masnachol ac incwm arall.

### Arddangosyn 5: Cyllid CNC, 2024-25




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata CNC

Nodyn: Nid oedd CNC wedi cwblhau ei gyfrifon ar gyfer 2024-25 ar adeg ein hadroddiad, felly amcangyfrifon yw'r ffigyrau.

15 Mae rhai aelodau o staff sy'n ymwneud â dynodi'n cael eu hariannu'n rhannol o ffynonellau eraill, megis codi tâl rheoleiddiol. Gan nad yw CNC yn gwybod faint o amser staff sy'n cael ei ddefnyddio ar ddynodi, nid yw'n gwybod i ba raddau y gallai gweithgareddau eraill fod yn darparu cymhorthdal ar gyfer dynodi.

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar y modd y mae'r sefydliadau hyn yn defnyddio adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir am Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.